

CYLCHGRAWN AR GYFER FFERMIO A CHOEDWIGAETH YNG NGHYMRU

# cyswllt FFERMIO



**FARMING**  
connect  
cyswllt  
**FFERMIO**

08456 000 813

**Academi Amaeth 2018**  
Ffenestr ymgeisio nawr  
ar agor!

**Allyriadau sylffwr**  
A fyddwch yn chwalu  
sylffwr y gwanwyn hwn?



RHIFYN 13 - Mawrth/Ebrill 2018 | [www.llyw.cymru/cyswlltffermio](http://www.llyw.cymru/cyswlltffermio)



**RHIDIAN GLYN**  
Rhiwgriafol, Talywern, Machynlleth  
Safle Arddangos Cyswllt Ffermio

# Y diweddraf am y prosiect Llyngyr yr Iau

Catherine Nakielny, Swyddog Technegol Cig Coch Cyswllt Ffermio

Mae Cyswllt Ffermio yn gweithio gydag IBERS, Aberystwyth i helpu i wella canfod cynefin ac i ddatblygu cynlluniau pori sy'n osgoi cynefin risg uchel ar adegau allweddol yn ystod y flwyddyn.

Roedd y prosiect hwn, a gychwynnodd yn haf 2017 yn gweithio gyda 5 fferm ar draws Cymru i ddynodi:

- Lleoliadau penodol ar y fferm lle gellir dod o hyd i falwen y llaid
- A yw unrhyw falwod y llaid a geir wedi eu heintio â llyngyr yr iau neu'r rwmn
- Sut y mae presenoldeb malwod y llaid neu rywogaethau llyngyr yn amrywio dros fisoedd yr haf a'r hydref

Mae cam cyntaf y prosiect wedi bwydo canlyniadau yn ôl i ffermwyr a helpu i ddynodi rhannau o gaeau y dylid eu hosgoi ar yr amseroedd o'r flwyddyn pan fydd y risg waethaf.

## CYFLWYNIAD

Fel pawb arall, rwy'n falch o weld yr eira yn araf ddiplannu yn enwedig ar ôl hydref a gaeaf hir a gwlyb.




Yn Iwcus eleni mae'r ddiadell o 700 o ddefaid yma yn Rhiwgriafol wedi bod i ffwrdd yn pori am y gaeaf cyn dod adre i bori 18 acer o swej. Mae hyn wedi fy ngalluogi i gadw porfa ar gyfer 110 o heffrod Friesian sydd yn cael eu magu ar gontract yma. Mi fydd yr heffrod allan yn pori ychydig yn hwyrach na'r disgwyl ddechrau mis Ebrill ar system pori fesul rhes (strip grazing). Ar ôl carthu a diheintio yr adeiladau, bydd tua 350 o ddefaid sydd yn cario efeilliaid yn dod i fewn tra bod gweddill y defaid yn wyna mewn caeau cysgodol o gwmpas buarth y fferm.

Wrth fod yn un o ffermydd arddangos Cyswllt Ffermio rydym wedi ymchwilio i'r prif agweddau sydd yn dylanwadu ar elw a effeithlonrwydd y busnes. Un o'r prosiectau hyn oedd edrych ar dactlo cloffni yn y ddiadell. Cyn cychwyn y prosiect roedd tua 8% – 10% o'r defaid yn gloff, felly roedd yn bryd ddarganfodeth oedd yn achosi y cloffni a sut i'w drin a'i osgoi. Trwy ddilyn y cynllun 5 pwynt (5 Point Plan) a gyda help y milfeddyg lleol mae nifer y defaid cloff wedi cwmpo i lai na 1%, sydd yn gwneud gwaith trin defaid yn llawer mwy plaserus yn ogystal â chynyddu effeithlonrwydd y ddiadell.

Wrth edrych ymlaen i 2018, un prosiect diddorol rydym am ei dreialu yw newid un dam 32 acer o'r fferm o system 'set stocking' i system 'cell grazing'. Gobeithiaf y bydd hyn yn fy ngalluogi i gynyddu lefelau stocio y fferm yn ogystal a rheoli porfa yn well.

## Enghraifft o'r canlyniadau mapio

Mae gan Lyngyr yr Iau gylched bywyd cymhleth ac mae'n dibynnu ar falwen y llaid *Galba truncatula* i gynnal a lluosogi'r parasit. Er bod y malwod yma i'w gweld mewn cynefinoedd gwlyb fel pyllau, glannau nentydd a ffosydd, ni fydd y malwod ym mhob cynefin addas a dim ond lleiafrif o'r malwod fydd wedi eu heintio â llyngyr yr iau.



Mae wedi bod yn ddifyr gweld bod ar y malwod llaid angen llaid 'moel' i oroesi ac nid ydynt wedi cael eu canfod yn y math o gynefin a gysylltir fel arfer â heintiadau llyngyr yr iau h.y. brwyn trwchus. Bydd Cyswllt Ffermio yn cynnal nifer o ddigwyddiadau agored ym mis Mai a Mehefin i drafod canfyddiadau'r prosiect hwn a thrafod sut y dylid dilyn cyngor milfeddygol a bod diwedd y gwanwyn/dechrau'r haf yn amser da i dargedu trin da byw rhag llyngyr yr iau gan ddefnyddio triniaeth llyngyr addas.

# Asesiadau llinellol annibynnol a gwerthusiadau genomig

Imogen Ward, Swyddog Technegol Llaeth Cyswllt Ffermio

**Genomeg yw'r broses o ddynodi potensial genetig anifail er mwyn gallu ei ddewis i fridio ar sail y nodweddion y disgwylir iddo eu dangos. Gall profion genomig ddynodi potensial anifeiliaid ifanc yn gyflym, gan helpu i dargedu nodweddion penodol - fel cynnyrch llaeth a defnydd effeithlon o borthiant. Mae hyn yn helpu ffermydd i gyflawni eu nodau wrth ddedol yn llawer cyflymach na bridio confensiynol. Bydd felly yn hwyluso gwella gwartheg llaeth yn gyflym o ran y nodweddion sydd o ddiddordeb i ffermydd a chymdeithas.**

Mae'n hanfodol hefyd gwerthuso asesiadau llinellol genomig gwartheg i roi gwybodaeth werthfawr am ffenoteip strwythurol yr anifail. Bydd hynny yn gadael i'r ffermwr fagu anifail, er enghraifft, sydd â'r corff cywir neu led y frest neu hyd cywir i'r deth i fod yn addas ar gyfer pa bynnag system y maent yn ei gweithredu.

Mae ffocws y rhan fwyaf o werthusiadau genomig benywaidd wedi bod ar y £Mynegai Proffidioldeb Oes Genomig (£GPLI) cyffredinol a llai ar y wybodaeth am deip llinellol genomig a roddir. Ond, mae pwysedd o £PLI o 7% i'r gader/pwrs a 5.5% ar gyfer sgoriau cyfansawdd y droed a'r goes. Dangosodd astudiaethau, pan fydd dewis o ran nodweddion o fath llinellol yn

cael ei gysylltu â nodweddion cynhyrchu, gellir disgwyl mwy o effeithlonrwydd economaidd. Mae hyn yn digwydd yn bennaf trwy ostwng costau cynhyrchu; er enghraifft, y rhai sy'n ymwneud â gofal milfeddygol a meddyginiaethau yn ogystal â chynyddu oes gynhyrchiol buchod yn y fuches. Gall nodweddion llinellol gyfrannu yn effeithiol at wella ansawdd llaeth trwy leihau amllder problemau yn ymwneud ag iechyd y gader/pwrs a'r system symud ymhlith eraill. Yn ychwanegol, gall dewis o ran nodweddion llinellol fod o gymorth i'r galw cynyddol am arferion rheoli da a'u dylanwad ar gynhyrchiol a lles y buchod.

Yn ddiweddar rhoddwyd prawf genomig i ddwy heffer yn Nhŷ'r Eglwys, Fferm Laeth Arddangos Cyswllt Ffermio a chrëwyd proffil llinellol ar gyfer y ddwy heffer trwy wasanaeth gwerthuso Rhinweddau Math Holstein UK ac AHDB. Gallwn weld bod amrywiadau mawr yn y sgôr Rhinweddau Math (3.71 pwynt o wahaniaeth) ac yn y sgoriau cyfansawdd pwrs/cader a Choesau a thraed rhwng y ddwy. Mae asesiad llinellol Heffer A yn awgrymu heffer dalach ac ychydig yn gulach gyda phwrs/cader taclus sy'n symud yn rhagorol. Mae asesiad llinellol Heffer B oddi tano yn

awgrymu heffer fyrrach a lletach, sy'n fwy bras trwy'r asgwrn a'i phwrs/cader heb ei gysylltu cystal gyda thethi hir ymhellach ar wahân. Mae'r data llinellol hwn yn bwydo i mewn i'r gwerth £PLI cyffredinol i'r teirw ac felly mae eu dilysu trwy asesiad llinellol annibynnol yn hanfodol i gael gwybodaeth gywir am y tarw ac unrhyw werthusiadau genomig o'r teirw yn y dyfodol. Bydd y ddwy heffer ymhlith grŵp a fydd yn cael eu dosbarthu ar ôl lloea gan Holstein UK yn ystod digwyddiad arddangos ar y cyd

rhwng Holstein De Cymru a Chyswllt Ffermio yn Nhŷ'r Eglwys yn ystod haf 2018. Bydd ffermwyr yn cael y cyfle i gymharu'r sgoriau llinellol genomig gyda'r sgôr llinellol wirioneddol gan y dosbarthwr ar y diwrnod.

*Cysylltwch ag Imogen Ward am ragor o wybodaeth*

**07985 379 819**

[imogen.ward@menterabusnes.co.uk](mailto:imogen.ward@menterabusnes.co.uk)



# Gosod targedau tyfu i wŷn

Menna Williams, Swyddog Technegol Cig Coch Cyswllt Ffermio

Bydd perfformiad oen yn gynnar yn ei oes yn cael ei bennu gan ansawdd a chyfanswm colostrwm a llaeth y fam. Bydd cynhyrchiant llaeth ar ei fwyaf dair i bedair wythnos ar ôl wŷna, felly mae bodloni anghenion y mamogaid o ran egni a phrotein yn y cyfnod hwn yn allweddol i gael dylanwad ar gyfanswm y llaeth a gynhyrchir. Bydd rwmen oen yn datblygu wrth iddo fwyta bwyd solid fel glaswellt a dwysfwyd, ac mae'n debygol o fod yn weithredol yn llawn erbyn wyth wythnos. O ganlyniad, bydd pwysu wŷn yn wyth wythnos oed yn rhoi syniad da o ba mor dda y mae'r mamogaid wedi bod yn llaetha, os mai ar adeg diddyfnu y byddid yn pwysu bydd dylanwad uniongyrchol gallu mamol y famog ar gyfraddau tyfu cynnar yr wŷn yn cael ei golli.

Trwy bwysu yn wyth wythnos oed gellir monitro perfformiad a gosod targedau. Gall casglu'r math hwn o ddata hefyd roi gwybodaeth i helpu i wneud gwell penderfyniadau'r flwyddyn nesaf, e.e. os oedd canran uchel o wŷn yn tanberfformio yn wyth wythnos oed, efallai bod angen i chi edrych ar faethiad y mamogaid, eu sgôr cyflwr corff neu eu hiechyd. Bydd cael cynllun gweithredu yn ei le ar gyfer wŷn bach yn 8 wythnos oed, gobeithio, yn lleihau'r nifer o wŷn llai sydd ar ôl ar y fferm. Er enghraifft, diddyfnu'r wŷn yn gynnar i borfa dda, rhoi dwysfwyd, neu werthu wŷn fel wŷn stôr.

Enghraifft dda o osod targedau a gweithredu ar ddata yw, Catrin Jones, Tirlan, Brechfa fferm ucheldir sy'n cadw 450 o famogaid Beulah. Trwy gasglu sgôr cyflwr corff y mamogaid, rheoli llyngyr yn strategol, gwerthuso maethiad a sylw i fanylion mae wedi llwyddo i sicrhau cynnydd o 3.4kg mewn pwysau wŷn 8 wythnos oed.

	2015	2017
Pwysau 8 wythnos (kg)	16.4	19.8
Pwysau wrth ddiddynfu (kg)	23.2	27.2
% o wŷn dan y targed (15 kg @ 8ww)	32	16.6

Nid oes dwy fferm yn union yr un fath a gall eich targedau fod yn wahanol gan ddibynnu ar y porthiant sydd ar gael i chi, y brîd o ddefaid yr ydych yn eu cadw, lefel y seilwaith pori presennol ond dylech i gyd gael targed realistig.

Targed o **20kg** i'r holl wŷn yn  
**56 diwrnod** (wyth wythnos).



56  
diwrnod

Targed o **30kg** i'r holl wŷn yn  
**90 diwrnod** (12 wythnos).



90  
diwrnod

Gyda **phwysau wrth eu geni o 4kg**, mae hyn yn cyfateb i tua **285g y dydd**.


# INCWM GWAHANOL I FFERMYDD CYNHYRCHU CIG CARW

## CYFLWYNIAD

Mae'r diwydiant ffermio ceirw yn y DU yn ehangu gan fod mwy o bobl yn bwyta cig carw fel dewis iach o gig coch premiwm. Ar ben hynny, mae adwerthwyr yn anelu at fod yn llai dibynnol ar fewnforion sy'n gwneud cig carw yn ddewis deniadol i ffermwyr.

### MANTEISION FFERMIO CIG CARW

1. Diwydiant sy'n ehangu yn y Deyrnas Unedig â photensial cryf i dyfu yn y dyfodol
2. Angen llawer llai o lafur na ffermio defaid
3. Costau milfeddygol/meddyginiaethau bychan iawn



### Sefydlu

1. **A yw eich fferm yn addas i geirw?** Mae gan geirw reddf famol gryf i guddio'r elain ar ôl eu geni felly mae'n ddymunol cael mannau addas i'w cuddio.
2. **Eich porfa** - Mae ewig sy'n llaetha a stoc sy'n pesgi yn ymateb yn dda i borfa dda a byddant o ddewis yn pori meillion a pherlysiâu fel ysgall y meirch a llyriad.
3. **Dwyster y Stocio** - Mae un ewig yn fras yn cyfateb i ddwy famog groesfrid o ran dwyster stocio felly a oes digon o dir ar gael i wneud uned geirw yn hyfyw?
4. **System ffermio** - Mae gan gyr o geirw magu galendr rheoli tebyg i fuches fagu sy'n lloea yn y gwanwyn.
5. **Stoc Bridio** - Dylech eu prynu o ffermydd ceirw sydd wedi hen sefydlu â statws iechyd yn uchel os yn bosibl.

### PENDERFYNU AR Y COSTAU

Ewig blwydd	£350 - 500 (oes gynhyrchol, tua 12-14 mlynedd)
Bwch bridio	£1,500 - £2,500
Ffensys	£10/m (ffens ceirw un darn 1.9m) £6/m ffens stoc wedi ychwanegu ati
Corlannau Trin	£10,000 - 15,000 gan ddibynnu ar raddfa'r uned a gofynion corlannu

\*y wybodaeth yn gywir ar adeg cyhoeddi (03/2018) Cofiwch roi sylw i statws iechyd yr anifail cyn ei brynu.

### Marchnata a gwerthu eich cynnyrch

- Ble fyddwch chi'n lladd a gwerthu eich cig? Holwch beth yw'r galw am y cynnyrch yn lleol h.y. gwerthiant preifat, bwyta, cigyddion
- Penderfynwch ar eich brand, nodwedd unigryw, dylunio gwefan a llwybrau eraill i'r farchnad
- Dowch yn aelod o grŵp cynhyrchwyr gyda strwythur prisiau a thalu cadarn
- Gall siopau ffermydd a gwerthu yn uniongyrchol fod yn fuddiol yn arbennig i unedau llai

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â'ch **Swyddog Datblygu** lleol neu cysylltwch â ni ar **08456 000 813** neu **cyswlltffermio@menterabusnes.co.uk**

Rhifyn 14 Mawrth/Ebrill 2018 | 7

# Prosiect Porfa Cymru

## Paratoi ar gyfer y tymor pori sydd o'n blaenau

Rhys Davies, Swyddog Technegol Llaeth Cyswllt Ffermio



Gall cyfnod prysur y gaeaf a'r tasgau dyddiol o borthi, taenu gwellt a gofalu am stoc dan do gael blaenoriaeth dros gynllunio a gwneud penderfyniadau pwysig am y tymor pori sydd o'ch blaen.

Er gwaethaf hyn i gyd mae'n bwysig treulio amser yn cynllunio ac yn paratoi at droi'r stoc allan a'r rownd gyntaf o bori i sicrhau bod y glaswellt yn cael ei ddefnyddio yn effeithlon am flwyddyn arall. Gan ddibynnu ar y tywydd ac erbyn i'r erthygl hon gael ei chyhoeddi, gall rhai unedau llaeth sy'n lloea yn gynnar yn y gwanwyn fod eisoes wedi troi gwartheg allan i bori, ond mae'r egwyddorion sylfaenol yr un fath beth bynnag yw'r system, y tir a'r amodau ar y fferm.

Dyma rai pwyntiau y dylai pob ffermwr eu hystyried wrth gynllunio am y flwyddyn sydd o'u blaenau:-

### 1. Cerddwch y fferm cyn troi allan

Hyd yn oed os nad oes gennych offer mesur tebyg i fesurydd plât neu ffon tyfiant, mae'n hanfodol i chi gerdded eich fferm i asesu'r gorchudd o laswellt a'r cyflwr dan draed. Gall cyflwr y caeau a faint o laswellt sydd ar gael fod wedi newid ers y cylchdro olaf a'r tro olaf i chi gerdded y caeau. Yn ddelfrydol dylai fod gennych ddam o laswellt yn barod i fynd iddo. Gall cerdded eich caeau yn wythnosol neu bob pythefnos fod y gweithgaredd rheoli glaswelltir gorau a wnewch chi.

### 2. Ystyriwch dymheredd y pridd

Gwnewch yn siŵr eich bod yn chwalu gwrtaith yn effeithiol yn ôl argymhellion RB209 pan fydd tymheredd y pridd ar leiafswm o 5o gradd gyda rhagolygon y bydd y tywydd yn fwyn. Edrychwch ar y map tymheredd pridd ar wefan Cyswllt Ffermio. <https://businesswales.gov.wales/farmingconnect/cy/cronfa-wybodaeth/tymheredd-pridd>

### 3. Trwsio'r seilwaith pori

Edrychwch ar eich cafnau dŵr a'u glanhau os oes angen, gwiriwch fod eich llwybrau gwartheg yn arbennig y prif lwybrau a'r rhai sy'n arwain at yr ychydig badogau cyntaf. Dangosodd astudiaethau y bydd buchod newydd loea yn fwy agored i faterion fel afiechyd llinell wen a chleisio gan fod yr uniad ym mur y carn yn gwanhau yn ystod ac ar ôl lloea.

### 4. Dewiswch badog bach i'w aberthu

Mae gollwng buches o fuchod am y tro cyntaf ar un llaw yn drawiadol a chalonogol ond ar y llaw arall gall greu difrod i'ch gwndwn. Gadewch i'r gwartheg gael eu hwyl ar badog gerllaw neu gae nad yw'n hanfodol i'r cylchdro a chofiwch gadw llai o stoc ar badogau am y troeon cyntaf i osgoi potsio gormodol. Gall gwartheg bori 5kg o Gynnwys Sych mewn 3-4 awr yn rhwydd

a thrwy ddefnyddio dulliau pori ar y tir ac oddi arno a dod â'r gwartheg yn ôl i mewn i fwyta porthiant, bydd yn helpu i leihau difrod gormodol i'r gwndwn ac yn rhoi cyfle i'r rwmen a'i ficrobau addasu o silwair i laswellt wedi ei bori.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwirio gwefan **prosiect Porfa Cymru** yn gyson i weld sut y mae'r glaswellt yn tyfu yn eich ardal a chael cip ar y penderfyniadau rheoli allweddol sy'n digwydd ar bob un o'r 14 o ffermydd sy'n cymryd rhan.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â **Rhys Davies 07985 379 880**.



PROSIECT  
**PORFA CYMRU**  
WELSH PASTURE  
PROJECT

# Cyfarwyddyd Arfer Da: Storfeydd Slyri

Keith Owen, Uwch Ymgynghorydd Adeiladau ac Amgylchedd ADAS, Cymru

Mae economeg ffermio modern yn annog rhywun i gynyddu maint buchesi, mae hyn yn ei dro yn gofyn am storfeydd slyri a thail ychwanegol neu well. Daw adeiladu storfa slyri dan Reoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd) (Silwair, Slyri a Thanwydd Olew Amaethyddol) (Cymru) 2010, y cyfeirir atynt yn aml fel y rheoliadau SSAFO. Mae'r rheoliadau yma yn gosod safonau dylunio ac adeiladu gofynnol ar gyfer storfeydd slyri.

## Gall y gwelliannau gofynnol ar gyfer storfeydd slyri a thail ddisgyn i dri chategori:

1. Mwy o le i storio i gydymffurfio â'r gofyn am leiafswm o 4 mis yn unol â rheoliadau SSAFO, pan nad oes cynnydd yn y cynhyrchiant slyri.
2. Mwy o le i storio i gydymffurfio â'r gofyn am leiafswm o 5 mis (*dan y Rheoliadau Atal Llygredd Nitradau (Cymru) 2008*) mewn Parthau Perygl Nitradau pan na fydd cynnydd yn y cynhyrchiant slyri.
3. Pan fydd maint buches yn cynyddu neu pan fydd y cyfanswm o slyri a gynhyrchir yn cynyddu tu hwnt i'r lle storio sydd ar gael ar hyn o bryd.

Manteision system storio slyri newydd neu well yw gallu storio maetholion gwerthfawr yn ddiogel, lleihau'r ddibyniaeth ar wrteithiau a grëwyd, a diogelu'r amgylchedd. Yn aml mae storfeydd newydd yn fwy na'r rhai presennol gan fod gofynion cyfreithiol am y bwllch rhwng wyneb y slyri ag ymyl y storfa, sy'n helpu i ddiogelu rhag y perygl o ddymchwel catastroffig, neu orlifo.

## Y SYSTEM GYNLLUNIO – caniatâd cynllunio

Mae'r broses gynllunio yn bodoli i sicrhau bod datblygiadau arfaethedig yn addas o ran y defnydd tir, y raddfa ac effaith y datblygiad. Gall storfeydd slyri fod yn brosiectau peirianeg sifil mawr sy'n gorchuddio ardaloedd eang, ac yn creu llif sylweddol o draffig, ac felly fe'ch cynghorir i gael cyngor cyn gwneud y cais am ganiatâd cynllunio.

## CYFLWYNO EICH CAIS

Mae'n bwysig eich bod yn glir yn eich cais cynllunio os ydych yn cynyddu faint o slyri sy'n cael ei gynhyrchu neu yn gwella'r cyfleusterau sy'n bodoli. Ym mhob achos mae lleoliad y storfa yn allweddol.

Dylid rhoi ystyriaeth ymarferol i faterion fel goledd, pellter i'r caeau, cymdogion, dyfrffyrdd, safleoedd sensitif yn ecolegol ac effaith ar y dirwedd. Ar gyfer datblygiadau dros 200 metr o eiddo preswyl cyfagos neu adeilad a ddiogelir, mae'r angen am orchudd i'r lagŵn neu

ymyrraeth arall i reoli pryfed ac aroglau yn llai tebygol. Os yw'r datblygiad o fewn 200 metr, efallai bydd angen cynllun Rheoli Arogleuon a dylech gysylltu â'r Swyddog Lechyd yr Amgylchedd Lleol. Ar gyfer ardaloedd dynodedig sy'n cael eu gwarchod, mae cyngor ar gael ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Wrth wneud cais sy'n cynnwys cynnydd yn y slyri a gynhyrchir argymhellir bod cynllun fferm gyfan yn cael ei gynnwys yn y datganiad dylunio a mynediad.

## Dylai'r cynllun fferm gyfan gynnwys:

- Y manteision amgylcheddol o'ch cynllun e.e. rheoli gwrychoedd i leihau ffactorau sy'n creu problemau gweledol neu niwsans.
- Sut y bydd tail a dŵr budr yn cael eu rheoli
- Y cydbwysedd rhwng y tail a gynhyrchir a'r tir sydd ar gael i'w wasgaru. Byddai unrhyw gynllun sy'n gallu dangos y bydd llai na 250 kilogram o Nitrogen i bob hectar o dail organig yn dystiolaeth o fudd amaethyddol ac arfer da.

## Mae cyngor am ddim ar gael

Mae cyfarwyddyd cynllunio ar gael ar y wefan porth cynllunio Porth Cynllunio <https://www.planningportal.co.uk/>

Cyfarwyddyd Ciria y Diwydiant Adeiladu **Livestock manure and silage storage infrastructure for agriculture (C759)**. [https://www.ciria.org/Resources/Free\\_publications/Farms.aspx](https://www.ciria.org/Resources/Free_publications/Farms.aspx). Mae hwn mewn dwy ran mae Rhan Un yn rhoi cefndir am ddeddfwriaeth a'r gwahanol systemau storio ac mae Rhan Dau yn cynnig cyfarwyddyd penodol ar gyfer y mathau o storfeydd, a systemau dan y gwartheg.

Ymrwymadau cyfreithiol ar gyfer Storio Slyri (SSAFO) Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd) (Silwair, Slyri a Thanwydd Olew Amaethyddol (Cymru) 2010. <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2010/1493/contents/made> Mae taflen wybodaeth Cyswllt Ffermio ar gael ar y wefan.

Mae'n bwysig eich bod yn derbyn cyngor proffesiynol am ddyluniad ac adeiladu eich storfa slyri. Mae gan Cyswllt Ffermio gwasanaeth cyngori gall helpu i arbed arian ac amser a gwarchod eich gofynion storio. Wrth wneud gwelliannau i'ch iard ac i reolaeth dŵr mae'n bosib lleihau eich anghenion storio cyn gwneud newidiadau seilwaith drud. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â **Cyswllt Ffermio** ar **08456 000 813**.

## Systemau porthiant amgen ar gyfer tir ymylol

Mae dwysau arferion ffermio wedi arwain at leihad mewn porfeydd parhaol llawn rhywogaethau i gaeau sy'n cynnwys un neu ddau rywogaeth o laswellt. Roedd porfeydd aml-rywogaeth yn gyffredin ar draws y DU yn y gorffennol ac yn addas ar gyfer amaethyddiaeth pori, priddoedd iach a fflora a ffawna amrywiol.

Y gwanwyn hwn, bydd tair fferm yng Nghymoedd y De Ddwyrain yn ail hau 4-5 ha o ucheldir ymylol gyda gwndwn aml-rywogaeth ynghyd â gwndwn rhygwelt/meillion gwyn traddodiadol i gymharu allbynnau'r ddwy system fel rhan o brosiect EIP dros dair blynedd.

### Dyluniad y prosiect

- Bydd caeau'n cael eu chwistrellu â glyffosad i ladd y glaswellt presennol cyn iddo gael ei drin.
- Bydd 50% o'r caeau'n cael eu hau gyda phorfa aml-rywogaeth sy'n cynnwys 5 rhywogaeth glaswellt, 3 rhywogaeth codlys a 3 rhywogaeth perlysiâu, a bydd 50% yn cael eu hau gyda chymysgedd o rygwelt a meillion gwyn ar gyfradd o 14kg/erw.
- Bydd asesiad yn cael ei wneud yn ystod y flwyddyn gyntaf i weld pa mor dda mae'r hadau wedi sefydlu a sut maent yn goroesi wrth gystadlu â glaswelltau chwyn a chwyn llydanddail annymunol.
- Yn ystod blwyddyn 1, 2 a 4, bydd y prosiect yn monitro cynhyrchiant ac



ansawdd porthiant, perfformiad y stoc a phoblogaeth anifeiliaid di-asgwrn cefn yn y gwndwn newydd.

Mae ansawdd a ffrwythlondeb tirweddau Cymru'n amrywio'n fawr, felly mae deall effeithiolrwydd gwahanol gyfansoddiadau gwndwn yn eich galluogi i hau glaswellt mewn modd mwy effeithlon ar diroedd ymylol.

Os oes modd i gynydd mewn amrywiaeth planhigion hefyd leihau amser pesgi ŵyn a/ neu wella iechyd anifeiliaid, gallai porfa aml-rywogaeth gwirioneddol gynnig potensial i reoli tir ymylol yng Nghymru ar gyfer cynhyrchiant a bioamrywiaeth gyffredinol.

## Rhagor o fanylion am EIP Wales

Mae EIP Wales yn cynnig cyllid o hyd at £40,000 ar gyfer prosiectau a all redeg dros gyfnod hyd at 3 blynedd, ac mae'n gyfle gwych i ffermwyr a choedwigwyr brofi technolegau, cynnyrch neu dechnegau newydd a rhoi eu syniadau ar waith.

E-bostiwch [eipwales@menterabusnes.co.uk](mailto:eipwales@menterabusnes.co.uk) neu ewch i [www.gov.wales/farmingconnect](http://www.gov.wales/farmingconnect) am ragor o fanylion.



A ydych chi am fentro i redeg eich fferm neu fusnes coedwigaeth eich hun rhyw ddiwrnod? A ydych chi am weithio ar raddfa lai neu gamu yn ôl o'r diwydiant? Pam na wnewch chi ystyried menter ar y cyd?

Gwasanaeth i gyfateb pobl â'i gilydd yw Mentor gyda'r bwriad o ddod o hyd i ffermwyr a thirfeddianwyr sydd am gamu yn ôl o'r diwydiant a'u cyfateb â newydd-ddyfodiaid sy'n chwilio am ffordd i mewn i ffermio a'u helpu i sefydlu menter ar y cyd.

## Crynodeb o'r Cyfleoedd Presennol

Lleoliad	Maint y Daliad (hectar)	Sector	Rhif Cyfeirio Mentro
Y Trallwng	152 ha	Biff a Defaid	222
Caerdydd	2 – 120 ha	Defaid ( <i>ond potensial ar gyfer gweithgareddau eraill</i> )	259
Y Drenewydd	102 ha	Biff a Defaid	229
Caerfyrddin	40 ha	Defaid	105
Caerfyrddin	36 ha	Biff a Defaid	244
Llanfyllin	29 ha	Coedwigaeth	220
Caerfyrddin	185 ha	Llaeth	121
Hwlfordd	70 ha	Biff a Defaid	112
Hwlfordd	24 ha	Garddwriaeth	87
Y Trallwng	325 ha	Defaid	124
Aberystwyth	650 ha	Defaid	265
Caernarfon	86 ha	Defaid a Moch	300
Dinbych	140 ha	Defaid	273
Gelli Gandryll	60 ha	Garddwriaeth, Biff a Defaid	169
Llanbedr Pont Steffan	41 ha	Biff ( <i>gynt</i> )	177
Wrecsam	202 ha	Llaeth	276
Tyddewi	1.2 ha	Garddwriaeth	239
Llangadog	38 ha	Defaid	47

Os oes gennych ddi-ddordeb mewn gweld y proffiliau llawn ar gyfer unrhyw un o'r cyfleoedd a restrir uchod, ymunwch â rhaglen Mentor fel Chwiliwr trwy lenwi eich proffil ar wefan Cyswllt Ffermio.

Gallwch gofrestru fel hyn hefyd os ydych yn Cynnig Cyfle ac am hysbysebu eich cyfle ar ein cronfa ddata o Chwilwyr.

[www.llyw.cymru/cyswlltffermio](http://www.llyw.cymru/cyswlltffermio)

## CAEL CYFLENWAD O GOED CRWN:

### Cyngor i fusnesau Biomaz

Geraint Jones, Swyddog Technegol Coedwigaeth Cyswllt Ffermio

Mae'n bwysig trafod yr anghenion o ran coed ar gyfer systemau gwresogi gyda chyflenwyr coed mor gynnar â phosibl yn y broses gynllunio. Dylai'r drafodaeth yma gynnwys faint o fomas sy'n angenrheidiol o ran y m<sup>3</sup>, y fanyleb, yr adnoddau sydd ar gael yn lleol a'r gofynion o ran ansawdd. Bydd gofyn am fanylion am gerbydau dosbarthu a'r dewis o ran rhybudd wrth archebu a dynodi'r math o gontract yn wybodaeth fydd yn pennu dyluniad logistaidd a phatrwm y cyfleuster e.e. lleoliad y staciau coed, mynediad a'r iard goed.

Mae'n bwysig rheoli ffynhonnell cyflenwad cyson a gweithredu rheolaeth ansawdd a fydd yn cadw costau cludo i lawr a sicrhau eich bod yn cael cynnyrch o safon i'ch system biomaz.

Edrychwch ar adnoddau sydd ar gael yn eich ardal ac am gyfleoedd i ymwneud â'r canlynol:

- Stadau Coed
- Rheolwyr Coetiroedd / Asiantau / ymgynghorwyr / Coedwigwyr
- Rheoli eich coetiroedd
- Rheoli cymdogaeth a choetiroedd mewn dwylo preifat
- Busnesau Coedyddiaeth Lleol
- Ffermwyr a pherchenogion coetiroedd lleol
- Cwmnïau coedwigaeth
- Contractwyr Coed



Pwyntiau allweddol i'w hystyried:

- Cynllunio logisteg a storio coed gan ystyried y lle yn yr iard goed a'r tir caled, congrid os yn bosibl a heb fwd a cherrig a all fod yn niweidiol i berfformiad y prosesu.
- Gwirio llwythi coed i wneud yn siŵr eich bod wedi archebu'r hyn sy'n cael ei ddsbarthu.
- Gwirwch am unrhyw weddillion sy'n glynu wrth goed ac sy'n cael ei gario i mewn gyda'ch llwyth.
- Yn y cyfnod cynllunio cofiwch ystyried mynediad i'r safle a seilwaith sy'n addas ar gyfer y cynnydd yn y traffig.
- Manteisiwch ar bob cyfle i brynu stoc pan fydd ar gael.
- Cludwch gymaint o stoc ag sy'n bosibl i wneud iawn am gyfnodau pan fydd y cyflenwad yn brin ac i'r coed gael sychu.
- Gwnewch yn siŵr bod y coed wedi dod o ffynhonnell gynaliadwy a bod eu torri wedi ei gymeradwyo a'i awdurdodi gan Gyfoeth Naturiol Cymru neu Adran Gynllunio Leol.

## A fyddwch yn chwalu sylffwr y gwanwyn hwn?

Gethin Prys Davies, Swyddog Technegol Cig Coch

O ganlyniad i'r dirywiad mewn diwydiannau trwm a chamau rheoli llygredd mwy caeth, gwelwyd gostyngiad sylweddol yn yr allyriadau sylffwr deuocsid ers yr 1970au. Mae hyn yn ei dro wedi cael effaith sylweddol ar faint o sylffwr sy'n cael ei ollwng ar diroedd o'r atmosffer, gyda'r lefelau presennol yn llai na 10% o'r hyn yr oeddynt yn 1980. Ar hyn o bryd mae'r cyfartaledd a olyngir ar draws y Deyrnas unedig tua 6kg S/ha.

O ystyried hyn, y flwyddyn ddiwethaf penderfynodd y ffermwr arddangos Cyswllt Ffermio, Paul Williams y byddai'n edrych ar statws S ei fferm.

**"O wybod bod sylffwr yn doddadwy ac yn dueddol o ollwng i'r amgylchedd roeddwn yn meddwl y byddai'n werth chweil edrych arno yn fwy manwl, yn arbennig gyda'r gaeafau gwlyb yr ydym wedi eu cael yn ddiweddar!"**

Fel rhan o Gynllun Rheoli Maetholion y fferm, chwalwyd sylffwr anorganig ar borfeydd a chaeau silwair yn flynyddol ers 6 mlynedd, ond gan nad yw'n cael ei ddangos ar y prawf pridd arferol sydd, yn nodweddiadol, yn cynnwys pH, P, K ac Mg, roedd Paul am gael darlun cliriach o lefelau'r sylffwr ar ei fferm. Gwnaed hyn trwy gymryd samplau o lystyfiant o'r caeau a anfonwyd i ffwrdd wedyn i labordy i'w dadansoddi.

Mae'r tabl isod yn dangos canlyniadau'r 4 cae glaswellt wedi eu samplo'r flwyddyn ddiwethaf.

Cae	Cymhareb N:S	DM Sylffwr
1	13.3 : 1	0.180%
2	9.3 : 1	0.237%
3	8.9 : 1	0.317%
4	10.4 : 1	0.286%

Dangosir diffyg sylffwr trwy gymhareb nitrogen:sylffwr o 13.1 neu fwy, neu lefelau sylffwr o lai na 0.25% DM. Fel mae'r tabl yn dangos, er gwaethaf chwalu sylffwr yn flynyddol, roedd lefelau'r sylffwr mewn un cae ym mhell dan y 0.25% DM dymunol ac un arall oddi tano o ychydig. O ganlyniad i'r canfyddiadau hyn, bydd Paul yn samplo rhagor o gaeau eleni ac yn newid ei bolisi chwalu sylffwr yn ôl hynny. Gellir gweld rhagor o wybodaeth am sylffwr yn y daflen wybodaeth 'Sylffwr i Dyfu Glaswellt' sydd ar gael ar wefan Cyswllt Ffermio.





# 24 awr ar ôl Lloea

Abby James, Swyddog Technegol Llaeth Cyswllt Ffermio

## Ystyrir cyfnod trosglwyddo buchod llaeth yn aml fel tair wythnos cyn lloea gyda'r buchod yn dychwelyd i'r fuches 12 awr ar ôl lloea, ond dylai gynnwys tair wythnos ar ôl lloea.

Yn ddelfrydol dylai'r buchod lloea yn eu grŵp sych a'u symud i grŵp ffres ond gall lle ac amser fod yn rhwystr i sefydlu grŵp newydd ac mae'n rhaid i bob fferm gael system sy'n gweithio iddyn nhw.

Gall protocol buwch ffres yn seiliedig ar arsylwi arbed amser a bydd yn arwain at well llaethiad. Mae hyn yn dechrau gydag asesiad yn y 24 awr cyntaf i ddynodi buchod risg uchel y bydd angen monitro mwy arnynt. Dylai buwch sydd wedi cael help i lloea, wedi cael gefeilliaid a/neu heb fwrw brych gael ei rhoi ar restr risg uchel ar unwaith. Fel y dylai buchod cloff neu fuchod nad ydynt yn iawn yn gyffredinol neu sy'n symud yn araf.



Bydd buwch yn naturiol yn cnoi ei chil lai dros lloea, byddant yn stopio cnoi cil awr cyn lloea ac yn ail ddechrau tua 3 - 4 awr ar ôl lloea gan ddbynnu ar y rheolaeth. Mae cynyddu cyflymder dychwelyd i gnoi cil yn llawn yn lleihau llawer o'r afiechydon ar ôl geni. Bydd angen monitro pellach ar fuchod sydd ddim yn cnoi ei chil yn iawn ac mae'n hanfodol i fuchod sych, buchod sy'n lloea a buchod ffres ddal ati i fwyta. Dylid asesu cyfansoddiad y tail a faint sydd ohono hefyd a dylai buchod nad ydynt yn arferol (*rhy ddyfrlyd i lunio pentwr o fiswail*) gael eu rhoi ar y rhestr mewn perygl. Dylai archwiliad llaeth manwl yn y parlwr hefyd ddynodi mastitis, gwaed yn y chwarteri a llenwi'r pwrs/gader a dylai'r buchod sydd â phroblemau gael eu rhoi ar y rhestr.

Dylai'r rhestr risg uchel gael eu gwirio ymhellach gan gynnwys mesur eu tymheredd - dros 39.4 yn cael ei ystyried yn dwymyn, prawf pabell groen i brofi am ddysychu (*aros i fyny am fwy na 5 eiliad*), clustiau oer yn brawf o glwy'r llaeth a gellir gwirio lefelau ceton gyda'r offer profi sydd ar gael i ffermydd. Dylai buchod sy'n cael diagnosis gael eu trin, a dylai buwch heb ddiagnosis gael ei hail archwilio'r diwrnod canlynol.

(Cyfeiriadau: *feeding signals*, Jan Hulsen 2014; *A Veterinary Book for Dairy Farmers*, R.W.B Lowey 1999.)

# Tyfiant ac Effeithlonrwydd wrth Besgi Moch

Jodie Roberts, Swyddog Technegol Moch a Dofednod

Mae llawer o ffactorau i'w hystyried wrth benderfynu ar yr amser cywir i farchnata eich moch. Bydd marchnata moch yng nghynt yn lleihau'r kilogramau a werthir ac yn cadw costau gorbenion yn uchel ond efallai na fydd cadw moch tu hwnt i'w pwysau delfrydol yn talu am gostau'r dwysfwyd ychwanegol neu reolaeth ar y moch. Mae'n hanfodol felly, wrth besgi moch i'w rheoli yn ofalus fel eu bod yn cael eu marchnata ar yr amser mwyaf addas i greu'r elw gorau i'r cynhyrchwr moch.

Bydd rheolaeth yr uned foch yn dylanwadu ar y cynnyrch fydd yn cael ei farchnata ar ddiwedd oes y mochyn. Dylai cynhyrchwyr moch ystyried sut y gall eu geneteg, ffurf y diet, dyluniad yr adeilad, amgylchedd a rheoli afiechyd effeithio ar y mochyn sy'n tyfu. Bydd gwahaniaethau wrth fridio, strategaethau porthi a rheolaeth yn cael dylanwad mawr ar besgi moch a bydd yn cael effaith ar borffidioldeb y busnes moch.

## Ymunwch â Chyswllt Ffermio yng Ngŵyl y Gwanwyn CAFC 2018 i gael cyfle i gynyddu eich gwybodaeth am foch.

PRYD?	BLE?	BETH?
Dydd Sadwrn 19 a Dydd Sul 20 Mai	Adran Foch Maes y Sioe Frenhinol, Llanelwedd	Arddangosfeydd a sesiynau un i un gydag arbenigwyr yn y diwydiant moch gan gynnwys y milfeddyg moch amlwg, Bob Stevenson.





## A oes gennych chi'r hyn sydd ei angen i fod yn arweinydd gwledig neu'n entrepreneur amaethyddol? Rydym wedi dechrau chwilio am ymgeiswyr ar gyfer Academi Amaeth 2018!

Mae'r rhaglen unigryw hon, sy'n cael ei disgrifio'n aml gan gyn-aelodau fel rhaglen sy'n 'trawsnewid bywydau', yn cymryd lle dros dri chyfnod astudio dwys ac ymweliadau tramor, ac yn rhoi'r ysbrydoliaeth, yr hyder, y sgiliau a'r rhwydweithiau angenrheidiol i ddatblygu i fod yn arweinwyr gwledig, pobl fusnes proffesiynol ac entrepreneuriaid yn y dyfodol.

*Mae tair rhaglen ar gael.*

**Rhaglen Arweinyddiaeth Wledig** - wedi'i anelu at ysbrydoli a datblygu cenedlaeth newydd o arweinwyr yng Nghymru wledig.

**Rhaglen Busnes ac Arloesedd** - wedi'i anelu at gefnogi ac ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o arloeswyr ac entrepreneuriaid ffermio a choedwigaeth yng Nghymru.

**Rhaglen yr Ifanc** - wedi'i anelu at gefnogi pobl ifanc rhwng 16 a 19 mlwydd oed sy'n dymuno dilyn gyrfa yn y diwydiannau bwyd, ffermio a choedwigaeth.

**Dyma beth oedd rhai o ymgeiswyr llwyddiannus y llynedd yn ei ddweud am eu profiad o fod yn rhan o'r Academi Amaeth.**

**GARETH THOMAS**, Cemaes, Ynys Môn (Oedran: 22)



### Busnes ac Arloesedd 2017

Dyweddodd Gareth fod ei brofiad gyda'r Academi Amaeth wedi bod yn 'wych' yn enwedig gan ei fod wedi canfod partner busnes newydd! Mae Gareth a Jim Ellis, sydd hefyd yn ymgeisydd, wedi penderfynu cydweithio ac eisoes wedi dechrau'r gwaith ymchwil ar gyfer eu busnes diodydd egni iach newydd.

*"Doeddwn i ddim yn gwybod beth i'w ddisgwyl, ond mae'r Academi Amaeth wedi ehangu fy ngwybodaeth am y diwydiant ac wedi rhoi llawer o hyder i mi. Rydw i wedi cyfarfod â llawer o bobl newydd ffantastig sydd wedi fy ysbrydoli a fy annog."*

**JOHN GOODWIN**, Llanandras (Oedran: 45)



### Busnes ac Arloesedd 2017

*"Mae datblygiad personol yn bwysig waeth ym mha gyfnod o fywyd yr ydych, ac rwy'n meddwl mai'r cyfuniad o grwpiau oed amrywiol, gwahanol gefndiroedd pawb, a rhaglen hyfforddi a gweithgareddau wedi'i chynllunio'n dda iawn, sy'n gwneud y rhaglen hon mor llwyddiannus."*

*"Gwnaeth pob un ohonom ffrindiau oes. Rydym yn cadw mewn cysylltiad a hefyd yn bwriadu sefydlu grŵp Agrigôp newydd."*

**TELERI FIELDEN**, Nant Gwynant (Oedran: 27)



### Arweinyddiaeth Wledig 2017

Roedd y daith i Frwsel gyda'r Rhaglen Arweinyddiaeth Wledig wedi ysbrydoli Teleri.

*"Roedd e'n rhoi hyder i mi wrth sylweddoli bod y materion rydym ni'n eu trafod adref yn yr undebau ffermwyr a'r clybiau ffermwyr ifanc yn medru effeithio ar y polisiau fydd yn cael eu penderfynu yn y dyfodol."*

*"Rydym nawr wedi cael yr hyfforddiant a'r gefnogaeth sydd eu hangen er mwyn sicrhau ein bod ni'n lleisio barn am y pethau rydyn ni'n credu ynddyn nhw. Rwy'n gwybod y byddwn ni'n cyfrannu i sgysiau galluog a chytbwys gyda'n gilydd."*

**GARETH DAVIES**, Howey, Llandrindod (Oedran: 46)



### Arweinyddiaeth Wledig 2017

"Mae'r Academi Amaeth wedi rhoi agwedd fwy optimistaidd i mi ac rwy'n bwriadu manteisio ar bob cyfle sy'n cael ei gynnig i mi."

Mae'n dweud hefyd ei fod bellach wedi sylweddoli bod unrhyw syniadau blaenorol oedd ganddo fod yr Academi Amaeth ar gyfer ffermwyr ifanc yn unig yn anghywir!

*"Mae bod yn rhan o'r Academi yn well na'r disgwyl. Am y tro cyntaf, rydw i wedi cymryd rheolaeth dros fy natblygiad personol fy hun. Mae'r ffrindiau, y mentora a'r hyfforddiant wedi rhoi mwy i mi nag oeddwn i wedi'i ddisgwyl erioed."*

**MORLEY JONES**, Pontsenni (Oedran: 17)



### Rhaglen yr Ifanc 2017

Mae'r deuddeg mis diwethaf wedi bod yn brysur iawn i Morley Jones, ond nid yw'n argoeli bod pethau'n arafu'n fuan! Mae Morley wedi rhoi ei fryd ar fod yn filfeddyg yng nghefn gwlad Cymru.

Dywed Morley ei fod yn arbennig o ddiolchgar o gael cynnig profiad gwaith yn swyddfa'r prif filfeddyg yn Llywodraeth Cymru'r gwanwyn hwn.

*"Mae profiad gwaith yn un o'r elfennau mwyaf gwerthfawr ar unrhyw CV, felly rwy'n ddiolchgar iawn ac yn edrych ymlaen ato. Mae bod yn rhan o Academi yr Ifanc wedi fy helpu i werthfawrogi mor bwysig yw ehangu eich rhwydwaith, gwrandao ar syniadau newydd a chael llwyfan i leisio eich barn eich hun."*

Am ragor o fanylion, meini prawf cymhwysedd, ffurflenni cais ac i ddarllen mwy am yr hyn sydd gan gyn aelodau i'w ddweud, ewch i wefan Cyswllt Ffermio neu cysylltwch â'ch Swyddog Datblygu Lleol. Y dyddiad cau i dderbyn ceisiadau yw **Dydd Gwener 30 Mawrth**.

# Amserlen Digwyddiadau

DYDDIAD	DIGWYDDIAD	LLEOLIAD	CYSWLLT
27/03/18 10:30-12:30	A yw lloea bloc yn yr hydref yn addas i mi?	Canolfan Hermon, Glogue, Sir Benfro, SA36 0DT	<b>Abigail James</b> 07399 970 988 abigail.james@menterabusnes.co.uk
04/04/18 11:00-13:30	Bwydo Dogn Cytbwyd Gyflawn (TMR)	The Elephant and Castle, Drenewydd, SY16 2BQ	<b>Rhys Davies</b> 07985 379 880 rhys.davies@menterabusnes.co.uk
05/04/18 12:00-15:00	Bwydo Compact - Manteision dull maeth y buchod llaeth Daneg	Marchnad da byw Raglan, Raglan, Sir Fynwy, NP15 2BH	<b>Imogen Ward</b> 07985 379 819 imogen.ward@menterabusnes.co.uk
20/04/18 11:00-14:00	Gwella canfyddiad y cyhoedd o laeth	Tŷ Tanglwyst Farm, Y Pfl, Pen-y-bont ar Ogwr, CF33 4SA	<b>Imogen Ward</b> 07985 379 819 imogen.ward@menterabusnes.co.uk
25/04/18 11:00-13:30	Profion Genomeg heffrod i wella cynhyrchiant ac iechyd anifeiliaid	Shordley Hall, Wrecsam, LL12 9RT	<b>Rhys Davies</b> 07985 379 880 rhys.davies@menterabusnes.co.uk
23/04/18 19:30	Rheoli Tail	Royal Oak Hotel, Y Trallwng, SY21 7DG	<b>Jodie Roberts</b> 07896 996 841 jodie.roberts@menterabusnes.co.uk
30/04/18 19:30	Rheoli Tail	Llandewi Parish Hall, Llandrindod, LD1 6SE	<b>Jodie Roberts</b> 07896 996 841 jodie.roberts@menterabusnes.co.uk
17/05/18 13:00-16:00	Digwyddiad Iechyd a Diogelwch Partneriaeth Diogelwch Fferm Cymru	Glynllifon, Coleg Meirion-Dwyfor, Ffordd Clynnog, Llandwrog LL54 5DU	<b>Cyswllt Ffermio</b> 08456 000 813
17/05/18 13:00-16:00	Digwyddiad Iechyd a Diogelwch Partneriaeth Diogelwch Fferm Cymru	Gelli Aur, Coleg Sir Gâr, Golden Grove, Caerfyrddin, SA32 8NJ	<b>Cyswllt Ffermio</b> 08456 000 813



MEISTR AR BORFA CYMRU  
PORI AM ELW  
WALES MASTER GRASS  
GRAZING FOR PROFIT

CHWILIO AM  
LYSGENHADON RHEOLI  
PORFA YNG NGHYMRU

A oes gennych chi ddealltwriaeth dda o reolaeth tir glas  
ac yn awyddus i ddatblygu ymhellach?

Ydych chi'n awyddus i ddysgu a mabwysiadu'r technegau diweddaraf o reoli porfa  
er mwyn gwneud y mwyaf o'r tir rydych chi'n ei reoli a chynnyddu'r elw o'r borfa?

**Mae Cyswllt Ffermio yn chwilio am gyfanswm o 30 o Lysgenhadon Rheoli Porfa  
i fynychu gweithdy 3 diwrnod (15 ymgeisydd llwyddiannus i bob gweithdy):**

**16 - 18 Ebrill 2018 (Llaeth)**  
Gelli Aur, Sir Gâr, SA32 8NJ

**21 - 23 Mai 2018 (Biff a Defaid)**  
Coleg Meirion-Dwyfor, Glynllifon, LL54 5DU